

ASESIAD RISG A CHYNLLUN GWEITHREDU – Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2021-22 Fersiwn 5 – Ionawr 2022

Cyflwyniad

Drwy gydol y pandemig mae'r Grŵp wedi ymgynghori gyda staff, myfyrwyr, Llywodraeth Cymru a cholegau eraill yng Nghymru i sicrhau bod ein staff a'n myfyrwyr mor ddiogel â phosibl. Mae'r dull hwn wedi bod yn un llwyddiannus o ran sicrhau cydbwysedd rhwng cadw pobl yn ddiogel a sicrhau bod ein myfyrwyr yn cyflawni eu cymwysterau. Bydd y Grŵp yn parhau i ddefnyddio dull tebyg wrth inni symud drwy'r flwyddyn academiaidd newydd. Fodd bynnag, bydd angen i staff a myfyrwyr **addasu i newidiadau yn yr amrywiol fesurau rheoli**.

Fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, ein nod dros y tymor nesaf fydd cynnal cymaint o ddysgu wyneb yn wyneb â phosibl ar y campws. Cynlluniwyd ein mesurau rheoli i gefnogi'r amcan hollbwysig hwn.

Fis Rhagfyr 2021, daeth 'Lefel Rhybudd 2' i rym yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu bod rhaid cryfhau rhai o'r mesurau rheoli a ddefnyddiwyd gennym y tymor diwethaf, yn enwedig o ran cadw pellter cymdeithasol. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, mewn cytundeb â'r undebau llafur a'r colegau, fframwaith rheoli diwygiedig. Defnyddiwyd y fframwaith hwn o'r blaen, a'r gwahaniaeth yn awr yw ein bod yn dechrau'r tymor newydd yn Ionawr 2022 gan ddilyn mesurau rheoli penodol sy'n briodol ar gyfer y lefel uchel o risg a achosir gan y cyd-destun Covid presennol (Ionawr 2022), sy'n cynyddu cyfraddau heintio, yn cynyddu'r niferoedd mewn ysbytai ac yn achosi problemau oherwydd nifer y bobl sy'n hunanynysu.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r dull fydd y Grŵp yn ei ddefnyddio, gan gydnabod efallai y bydd yn rhaid tynhau'r mesurau rheoli os bydd amgylchiadau'n newid o ran Covid-19, yn enwedig os bydd y lefel risg a nodir yn y ddogfen Fframwaith Rheoli yn cynyddu. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn gallu llacio'r mesurau rheoli pan fydd lefel y risg yn gostwng. Rydym i gyd yn gobeithio y byddwn mewn sefyllfa i wneud hyn yn ystod y misoedd nesaf, ond rhaid i ni hefyd fod yn barod ar gyfer yr angen posibl i dynhau'r rheoliadau os bydd yr amgylchiadau'n newid.

Bydd GLIM yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol a'r Timau Rheoli Digwyddiadau (IMT) i benderfynu pa fesurau sydd eu hangen ar adeg benodol, yn dibynnu ar y cyd-destun Covid-19 lleol.

Cydbwys Mesurau Rheoli

Er bod nifer o fesurau rheoli wedi cael eu llacio, mae gofyniad cyfreithiol ar gyflogwyr i gyflwyno 'mesurau rhesymol' i atal lledaeniad Covid-19, yn unol â gofynion Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999. Fodd bynnag, rhaid ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng hynny a'n dyletswydd i ddarparu addysg a hyfforddiant. **Yn anad dim, mae'r Cynllun Rheoli a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi y dylai darparwyr addysg fod yn anelu at amharu cyn lleied â phosibl ar ddysgu, hyd yn oed yn y categorïau risg uchaf.**

Y Rhaglen Frechu

Mae'r Grŵp yn gwbl gefnogol i'r rhaglen frechu **ac atgyfnerthu** ac yn annog ei staff a'i fyfyrwyr i gael eu brechu'n llawn. Po fwyaf o bobl fydd yn cael eu brechu'n **llawn**, yna'r lleiaf o amharu a fydd yna ar y dysgu.

Hunanynysu

Mae'r rheolau diweddaraf ar hunanynysu yng Nghymru i'w gweld **yma**. Noda'r canllawiau: "Os oes gennych symptomau COVID-19, dylech hunanynysu a chymryd prawf PCR cyn gynted â phosibl. Os ydych wedi profi'n positif am Covid-19 rhaid i chi hunanynysu a dilyn y canllawiau isod."

Yn unol â Chanllawiau diweddaraf y Llywodraeth, gallwch roi'r gorau i hunanynysu ar ôl saith diwrnod os ydych wedi cael canlyniadau LFT negatif ar ddyddiau 6 a 7. Os nad ydych yn cael dau ganlyniad negatif (ar ddyddiau 6 a 7), bydd angen i chi barhau i brofi eich hun nes y cewch dau prawf negatif dilynol neu y byddwch wedi cwblhau 10 diwrnod o ynysu.

Diweddariad ynghylch Profi

Mae profi yn parhau'n flaenoriaeth. Mae GLIM yn cyngori'r holl staff a myfyrwyr yn gryf i ddefnyddio'r pecynnau profi sydd ar gael am ddim yn y coleg. Bydd profi tair gwaith yr wythnos **neu cyn dod i'r gwaith neu'r coleg** yn helpu i gadw nifer yr achosion yn isel yn y coleg ac yn ein cynorthwyo i barhau i addysgu a hyfforddi wyneb yn wyneb.

Cofiwch ei bod hefyd yn bwysig rhoi gwybod am eich canlyniad hyd yn oed os byddwch yn profi'n negyddol.

Cadw Pellter Cymdeithasol a Gorchuddion Wyneb

Mae cadw pellter cymdeithasol yn ofyniad cyfreithiol yng Nghymru, ac ers 29 Tachwedd 2021, rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ymhob man dan do gan gynnwys ystafelloedd dosbarth a gweithdai lle na ellir cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr.

O dan y Lefel Rhybudd 2 presennol a'r categori risg uchel, rhaid i staff gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd a myfyrwyr oni bai eu bod yn defnyddio PPE priodol. Rhaid i fyfyrwyr gadw pellter cymdeithasol oddi wrth fyfyrwyr nad ydynt yn eu grŵp. Mewn ystafelloedd dosbarth neu weithdai, rhaid iddynt wisgo gorchudd wyneb os na allant gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr.

Grwpiau Cyswllt

Bydd angen grwpiau cyswllt ar lefelau risg uchel iawn.

Grŵp cyswllt yw grŵp o ddysgwyr sy'n dilyn prif raglen, e.e. Diploma Estynedig Lefel 3 BTEC mewn Chwaraeon, a dyma fydd y brif swigen y bydd dysgwyr yn y grŵp yn rhyngweithio â hi. Pan fydd angen i ddysgwyr gymysgu â dysgwyr eraill i gwblhau rhan o'u rhaglen, e.e. Sgiliau Hanfodol, TGAU, CLIF, Academiau Chwaraeon, pynciau Lefel A ac ati, byddant yn dod yn rhan o grwpiau cyswllt ychwanegol. Os bydd dysgwr yn profi'n bositif am COVID, byddwn yn darparu manylion y grwpiau cyswllt mae'r dysgwr yn rhan ohonynt fel y gellir cymryd camau priodol. Bydd grwpiau cyswllt tymor byr yn bodoli yn ôl yr angen (er enghraifft ar gyfer arholiadau, neu gyrsiau undydd). Ystyria GLIM bob grŵp Cyswllt Ysgolion fel un grŵp cyswllt, ni waeth o ba ysgolion y daw'r dysgwyr.

Dysgu o Bell Ar-lein

Defnyddir dysgu ar-lein o bell os bydd angen i gynnal y dysgu a'r addysgu neu os yw'n rhan arferol o'r cynllun ar gyfer dysgu.

Mesurau rheoli

Bydd nifer o'r mesurau rheoli sylfaenol a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig yn parhau i fod ar waith a gellir eu haddasu yn ôl yr angen i gefnogi unrhyw newidiadau i lefel y risg. Gellir defnyddio mesurau rheoli ar adegau gwahanol ac ar gampysau/safleoedd gwahanol yn dibynnu ar y cyngor a'r canllawiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru a Thimau Rheoli Digwyddiadau (IMT's) lleol a rhanbarthol.

Mae dogfen sy'n crynhoi mesurau rheoli'r Grŵp ar bob lefel risg y fframwaith rheoli i'w gweld [yma](#)

Ein prif Fesurau Rheoli yw:

1. Bydd y cynnydd yn y drefn o lanhau yn parhau
2. Dylai staff a myfyrwyr gymryd prawf llif unffordd deirgwaith yr wythnos ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Dylai myfyrwyr rhan-amser neu rai sy'n mynychu'r campysau'n achlysurol wneud prawf cyn dod i safle neu gyfarfod yn y gweithle.
3. Bydd yn **rhaid** i ystafelloedd barhau i gael eu hawyru'n dda wrth gael eu defnyddio.
4. Bydd llwybrau unffordd yn parhau mewn grym yn adeiladau'r coleg a **rhaid** cadw atynt.
5. Rhaid defnyddio'r cyfleusterau diheintio dwylo wrth fynd i adeilad, **ystafell dodosbarth**, **gweithdy** neu unrhyw ran o'r coleg.
6. Rhaid gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol yn adeiladau'r coleg, ar gludiant y coleg ac mewn ystafelloedd dosbarth lle na ellir cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr (os nad yw'r unigolyn wedi'i eithrio).
7. Gall staff a myfyrwyr wisgo gorchuddion wyneb ym mhob rhan o'r coleg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
8. **Rhaid** cadw at ganllawiau priodol y diwydiant pan fo angen gwneud hynny e.e. ym maes gwallt a harddwch.
9. Bydd y ffreuturau'n cynnig gwasanaeth 'Tamaid Sydyn' yn unig.
10. Bydd mannau cymdeithasol y myfyrwyr wedi cau.
11. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar GLIM i sicrhau bod staff yn gweithio gartref oni bai ei bod yn anymarferol iddynt gyflawni eu gwaith oddi ar y safle, er enghraifft, dysgu ac addysgu neu ddarparu gwasanaethau cymorth ar y safle. Dylai darlithwyr weithio gartref pan nad ydynt yn addysgu os yw hynny'n ymarferol.
12. **Ni ddylai** unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 ddod i'r coleg.
13. **Rhaid** i staff a myfyrwyr gydweithredu â'r timau Profi, Olrhain a Diogelu er mwyn cadw'r firws dan reolaeth. Os bydd y timau hyn yn gofyn i staff a myfyrwyr hunanynysu **rhaid** iddynt wneud hynny.
14. Dylid **diwygio'r** asesiadau risg unigol ar gyfer staff a myfyrwyr yn y categori eithriadol o agored i newid (a oedd ar y rhestr warchod).

Yn ogystal â'r mesurau rheoli sylfaenol hyn, bydd y Grŵp hefyd yn gofyn i bawb gadw at y mesurau a ganlyn:

15. **Rhaid** i Feysydd Rhaglen ddefnyddio dull dysgu hybrid ar gyfer o leiaf 10% o'u darpariaeth llawn amser.
16. **Rhaid** i'r amserlenni leihau nifer y cyfnodau rhydd yn ystod y dydd.
17. **Rhaid** i amserlenni Meysydd Rhaglen barhau i leihau nifer y sesiynau rhydd yn ystod yr wythnos a **rhaid** i'r ddarpariaeth ddefnyddio bob diwrnod yr wythnos yn gyfartal.
18. **Rhaid** defnyddio cynlluniau eistedd **ar lefelau risg uchel iawn.**
19. Caiff staff darlithio eu hannog yn gryf i ddefnyddio eu horiau gweithio o adref penodol yn llawn, os yw eu hamserlenni'n caniatáu hynny.
20. Gellir cynnal cyfarfodydd ar y campws, ond dylai cyfarfodydd o bell barhau i gael eu cynnal pan fo hynny'n briodol.

Bydd proses ymateb i ddigwyddiadau Covid y Grŵp yn parhau dan reolaeth Steve Lloyd.

Meysydd Cyfarwyddyd Amrywiol

- **Ymwelwyr** – Dim ond ymwelwyr hanfodol all fynychu'r coleg ar y lefelau risg uchaf, a **rhaid** iddynt gadw at weithdrefnau'r coleg.
- **Tripiau ac ymweliadau** – Ar y lefel risg uchaf, dim ond tripiau ac ymweliadau sy'n hanfodol ar gyfer asesiadau (o fewn dalgylch Grŵp Llandrillo Menai) all cael eu cynnal a hynny'n unol â'r broses gymeradwyo arferol.
- **Llogi campfeydd a chanolfannau hamdden** – Ar y lefelau risg uchaf, dim ond i ddibenion asesu y gall Campfeydd a Chanolfannau Hamdden agor Yn unol â Chanllawiau LIC ar gyfer y sector, gall cyfleusterau awyr agored fel caeau pêl-droed gael eu llogi gan grwpiau cymunedol.
- **Lleoliadau gwaith** – Dim ond os ydynt yn ofynnol ar gyfer asesiadau neu'n rhan o raglen Estynedig / Datrysiadau Creadigol ac yn unol ag asesiadau risg y darparwr gyda phroffion rheolaidd.
- **Cyfarfodydd mewn Adeiladau Allanol** – e.e. dysgu seiliedig ar waith, yn gallu cael eu cynnal.
- **Lletygarwch a salonau** – Gallant agor i ddibenion asesu'n unig a **rhaid** gweithredu'n unol â chanllawiau'r diwydiant.
- **Cludiant y coleg** – Gellir ei ddefnyddio yn unol â chanllawiau LIC, h.y. gorchuddion wyneb ac awyru.
- **Llogi cyfleusterau'r campws ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â'r coleg** – Ni cheir gwneud hyn yn ystod tymor yr hydref, os na chafwyd cymeradwyaeth y Pennaeth/Prif Weithredwr â chyfrifoldeb am y safle/campws. Bydd y penderfyniad yn ystyried yr effaith ar y gwasanaethau cefnogi, h.y. ystadau, glanhau ac ati. Rhaid gwneud asesiad risg priodol ar bob gweithgaredd o'r fath.
- Bydd nifer yr achosion o Covid ar draws y Grŵp yn cael ei rannu â staff drwy Borth y Grŵp
- Bydd monitorau CO2 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu gosod mewn ystafelloedd addas.
- **Nosweithiau agored** – Adolygir hyn yn ystod y cam cynllunio.

Monitro ac Adolygu

Fel sydd wedi digwydd yn ystod y pandemig, bydd y Grŵp yn parhau i adolygu'r rheolau a'r gweithdrefnau rhag ofn y bydd angen gwneud unrhyw newidiadau. Bydd y pwyllgorau SHE yn parhau i gyfarfod i gefnogi'r broses adolygu. Rhagwelir y bydd y mesurau rheoli a nodir yn y ddogfen hon yn cael eu hadolygu'n llawn ddiwedd mis **Ionawr**. Bydd agor y ffreuturiau i gynnig gwasanaeth mwy normal yn un enghraifft o'r mathau o newidiadau y byddwn yn gobeithio gallu eu cyflwyno.

Mae'r mesurau rheoli a nodir yn y ddogfen hon wedi'u cynllunio i leihau'r risg y gallai Covid ei gael, drwy amharu ar iechyd a lles unigolion a thrwy amharu ar ddysgu. Mae cael y cydbwysedd iawn yn anodd a fydd ond yn gweithio os bydd y staff a'r myfyrwyr yn chwarae eu rhan drwy gadw at y mesurau rheoli. Fel sefydliad, rydym yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar gael i ni pe bai'r mesurau hyn yn cael eu torri'n barhaus.

ASESIAD RISG TROSWAOL CYMERADWY AR GYFER AILAGOR – TYMOR YR HYDREF 2021

Nodyn: Mae hwn yn asesiad risg dynamig a bydd yn amodol i newid

Mae'r adran ganlynol yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r peryglon a'r rheolaethau a ganfyddir y bydd GLIM yn eu sefydlu er mwyn lleihau'r risg mor isel ag sy'n ymarferol o dan y Lefel Rhybudd 2 presennol a'r categori risg uchel:

- Rhaid i staff gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd a myfyrwyr oni bai eu bod yn defnyddio PPE priodol.
- Rhaid i fyfyrwyr gadw pellter cymdeithasol oddi wrth fyfyrwyr nad ydynt yn eu grŵp. Mewn ystafelloedd dosbarth neu weithdai, rhaid iddynt wisgo gorchudd wyneb os na allant gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Bydd angen grwpiau cyswllt ar lefelau risg uchel iawn.

Y perygl fydd dod i gysylltiad â'r coronafeirws, y niwed fydd effeithiau coronafeirws a bydd y bobl yr effeithir arnynt yn unrhyw un sydd yn adeiladau o eiddo GLIM, staff, dysgwyr, contractwyr, ymwelwyr ac unrhyw un a all gael ei effeithio gan ein gweithgareddau.

Mae'r rheolaethau a ddarparwyd ar gyfer Coronafeirws ar gyfer sicrhau bod y perygl un ai'n cael ei waredu neu'n cael ei leihau Mor Isel ag sy'n Ymarferol Resymol:

1. Bydd y cynnydd yn y drefn o lanhau yn parhau
2. Dylai staff a myfyrwyr gymryd prawf llif unffordd deirgwaith yr wythnos ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Dylai myfyrwyr rhan-amser neu rai sy'n mynychu'r campysau'n achlysurol wneud prawf cyn dod i safle neu gyfarfod yn y gweithle.
3. Bydd yn **rhaid** i ystafelloedd barhau i gael eu hawyru'n dda wrth gael eu defnyddio.
4. Bydd llwybrau unffordd yn parhau mewn grym yn adeiladau'r coleg a **rhaid** cadw atynt.
5. Rhaid defnyddio'r cyfleusterau diheintio dwylo wrth fynd i adeilad, ystafell ddosbarth, gweithdy neu unrhyw ran o'r coleg.
6. Rhaid gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol yn adeiladau'r coleg, ar gludiant y coleg ac mewn ystafelloedd dosbarth lle na ellir cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr (os nad yw'r unigolyn wedi'i eithrio).
7. Gall staff a myfyrwyr wisgo gorchuddion wyneb ym mhob rhan o'r coleg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
8. **Rhaid** cadw at ganllawiau priodol y diwydiant pan fo angen gwneud hynny e.e. ym maes gwallt a harddwch.
9. Bydd y ffreuturau'n cynnig gwasanaeth 'Tamaid Sydyn' yn unig.
10. Bydd mannau cymdeithasol y myfyrwyr wedi cau.
11. Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar GLIM i sicrhau bod staff yn gweithio gartref oni bai ei bod yn anymarferol iddynt gyflawni eu gwaith oddi ar y safle, er enghraifft, dysgu ac addysgu neu ddarparu gwasanaethau cymorth ar y safle. Dylai darlithwyr weithio gartref pan nad ydynt yn addysgu os yw hynny'n ymarferol.
12. **Ni ddylai** unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 ddod i'r coleg.

13. **Rhaid** i staff a myfyrwyr gydweithredu â'r timau Profi, Olrhain a Diogelu er mwyn cadw'r firws dan reolaeth. Os bydd y timau hyn yn gofyn i staff a myfyrwyr hunanynysu **rhaid** iddynt wneud hynny.

14. Dylid **diwygio'r** asesiadau risg unigol ar gyfer staff a myfyrwyr yn y categori eithriadol o agored i newid (a oedd ar y rhestr warchod).

Mae'r bobl a effeithir yn cael eu nodi fel staff, dysgwyr, contractwyr, glanhawyr, ymwelwyr ac unrhyw un a all gael ei effeithio gan weithgareddau'r Grŵp.

Gweithgaredd / Peryglon ac Effeithiau Niweidiol	Pobl a effeithir	Rheolaethau i'w dilyn	Sylwadau / Rheolaethau Ychwanegol
Agor pob safle GLIM ar gyfer gweithgareddau arferol	Unrhyw un sydd oddi mewn i adeiladau GLIM, staff, contractwyr ac unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan ein gweithgareddau.	- Mae oriau agor y safle wedi dychwelyd at oriau 'arferol' amser tymor. - Gweithio o bell i barhau ar gyfer rhai aelod o staff lle y bo'n bosibl. Asesiad DSE a darparu cyfarpar er mwyn hwyluso gweithio o gartref. Gweler y canllawiau ar y porthol. Rheolwr sydd ar Ddyletswydd / Safle i'w benodi a chasglu radio ddwyffordd i gysylltu â Diogelwch/Yr Adran Ystadau/Gofalwyr. Yr Adran Ystadau i sicrhau bod personél ar gael i agor a diogelu'r safleoedd. Dylai Gofalwyr fod ar gael i ymateb i geisiadau, e.e. methiant yn y cyflenwad trydan, draeniau wedi'u blocio, colli cyfleusterau.	
Yr holl safleoedd allanol a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau GLIM	Staff GLIM, dysgwyr ac unrhyw un sy'n cael ei effeithio gan y gweithgaredd	Rheolwr i sicrhau bod gwiriadau yn cael eu gwneud ar unrhyw adeilad a ddefnyddir er mwyn sicrhau bod rheolaethau Covid yn bodoli, e.e. ar gyfer cyrsiau yn y gymuned.	
Nodwch unrhyw ardaloedd ar y safle a all fod â chyfyngiadau neu newid defnydd	Pawb sy'n mynychu'r safle	Penaethiaid Cynorthwyol/Cyfarwyddwyr / Rheolwyr i gytuno gydag Ystadau ynghylch sut y bydd y swyddfeydd / ystafelloedd dosbarth / gweithdai y maent yn eu defnyddio yn cael eu gosod ar gyfer eu defnyddio. Rhaid defnyddio cynlluniau eistedd lle bo hynny'n bosibl i leihau'r angen i ynysu'r grŵp cyfan ac i gefnogi'r gwaith olrhain. Rhaid defnyddio cynlluniau eistedd ar lefel risg uchel iawn.	
Mynediad i'r safle (Ffisegol)	Pawb sy'n mynychu'r safle	Mae llwybrau mynediad a systemau unffordd wedi cael eu cytuno ac mae'r Adran Ystadau wedi darparu arwyddion/marciau llawr/cyfyngiadau yn y lifftiau priodol.	Caniateir 'torri' rheolau'r systemau unffordd lle mae

Dychwelyd i'r arferol.		• Mae'r Adran Ystadau wedi darparu marcwyr tâp, rhwystrau plastig, sgriniau a rhanwyr <i>Perspex</i> i farcio'r ardaloedd gweithio er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd wedi'u marcio er mwyn cadw pellter cymdeithasol. • Dylai pobl barcio mor agos at yr ardal lle maent yn gweithio / astudio er mwyn lleihau symudiadau ar draws y safle drwy ddefnyddio'r llwybr allanol byrraf i gael mynediad at adeiladau. • Ni fydd cysgodfeydd ysmygu ar gael mwyach. Bydd yr Adran Ystadau yn gosod tâp arnyn nhw er mwyn cyfyngu mynediad. • Ni chaniateir ysmygu na defnyddio e-sigarêts ar y safleoedd, y tu mewn, y tu allan nac mewn ceir sydd wedi'u parcio ym meysydd parcio GLIM. Mae hyn yn unol â'r gofynion ar gyfer Ysgolion yng Nghymru. • Yn groes i gyngor arferol ynglŷn ag iechyd a diogelwch, os yw grisiau yn llydan a ddim yn serth a bod staff yn ddigon heini, dylai gweithwyr osgoi gafael yn y canllaw wrth fynd i fyny ac i lawr y grisiau (mae angen canolbwyntio 100% - peidiwch â defnyddio ffonau symudol). • Dim ond pan fydd angen rhoi blaenoriaeth y dylid defnyddio lifftiau, ac mae'n rhaid gwisgo gorchuddion wyneb. • Lle y bo'n bosibl, bydd llwybrau un ffordd yn cael eu defnyddio. Lle nad yw'n bosibl cael llwybrau un ffordd, cadwch i'r chwith/cerddwch un ar ôl y llall ar goridorau. • Grisiau i roi blaenoriaeth i'r rhai hynny sy'n dod i lawr y grisiau. • Bydd gwres / golau / dŵr/ larymau argyfwng yn gweithio fel arfer. • Aerdymheru ac awyru i'w defnyddio yn unol â chanllawiau AGID. Gellir defnyddio gwyntyllau yn awr mewn lleoliadau penodol fel ag a gytunwyd gyda'r rhai sy'n gweithio yn yr ardal.	asesiad risg yn dynodi bod angen hyn fel addasiad rhesymol.
Mynediad i'r safle (Staff)	Pawb sydd ar y safle	• Penaethiaid/ PCau/ Cyfarwyddwyr i sicrhau fod cyfarwyddyd yn cael ei ddarparu cyn dechrau gweithio/mynychu campws coleg a derbyn gwybodaeth ynglŷn â beth i'w ddisgwyl a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth fynychu safleoedd. • Rhaid i staff wisgo gorchuddion wyneb: • Rhaid i staff wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol yn adeiladau'r coleg, ar gludiant y coleg ac mewn ystafelloedd dosbarth lle na ellir cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr (os nad yw'r unigolyn wedi'i eithrio).	

		• O dan y Lefel Rhybudd 2 presennol a'r categori risg uchel, rhaid i staff gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd a myfyrwyr oni bai eu bod yn defnyddio PPE priodol. • Rhaid caniatáu i staff wisgo gorchuddion wyneb os ydynt yn dymuno gwneud hynny. • Os yw staff wedi cael eu heithrio rhag gwisgo gorchudd wyneb, rhaid iddynt roi gwybod i'r adran Adnoddau Dynol a gwisgo'r laniard neu'r bathodyn priodol fel nad ydynt yn cael eu herio gan staff am beidio â gwisgo gorchudd wyneb. • Atgoffir staff i wirio eu croen ac adrodd ynglŷn ag unrhyw broblemau neu bryderon, oherwydd adweithiau posibl i'r diheintydd. Mae gwybodaeth ynglŷn â dermatitis ar gael ar Hwb Iechyd yr Adran AD. • Dylai Staff aros gartref ac adrodd wrth eu Rheolwr os ydyn nhw'n teimlo'n sâl. • Dylai Staff mewn categorïau risg uwch drafod unrhyw bryderon gyda rheolwyr cyn dychwelyd i'r gwaith. • Rhaid cynnal asesiadau risg unigol ar gyfer staff yn y categori eithriadol o agored i niwed yn glinigol (rhai a oedd yn gwarchod) (gweler canllawiau Llywodraeth Cymru). • Dylai staff gymryd prawf llif unffordd deirgwaith yr wythnos ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Dylai staff rhan-amser neu rai sy'n mynychu'r campysau'n achlysurol wneud prawf cyn dod i safle neu gyfarfod yn y gweithle.	
Mynediad i'r safle (Dysgwyr)	Pawb sydd ar y safle	• Penaethiaid / Penaethiaid Cynorthwyol / Cyfarwyddwyr i sicrhau bod cyfarwyddyd yn cael ei ddarparu cyn dechrau gwaith/mynychu campws coleg. Dylid darparu dysgwyr gyda gwybodaeth ynglŷn â beth i'w ddisgwyl a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth fynychu safleoedd. Dylai'r cyfarwyddyd gynnwys nodyn i'w hatgoffa na ddylen nhw fynychu'r safle os ydyn nhw'n teimlo'n sâl. • Rhaid i ddysgwyr wisgo gorchudd wyneb: ○ ym mhob ardal gymunedol yn adeiladau'r coleg. ○ mewn lifftiau a rennir. ○ ar gludiant coleg. ○ Mewn ystafelloedd dosbarth neu weithdai, rhaid iddynt wisgo gorchudd wyneb os na allant gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr. • Rhaid caniatáu i ddysgwyr wisgo gorchuddion wyneb os ydynt yn dymuno gwneud hynny.	

		• Bydd disgwyl i ddysgwyr fynychu'r Coleg. • Gall dysgwyr mewn categorïau risg uwch drafod eu categorïau iechyd a'u pryderon gyda thiwtoriaid cyn dod i'r Coleg. • Rhaid cynnal asesiadau risg unigol ar gyfer dysgwyr yn y categori eithriadol o agored i niwed yn glinigol (rhai a oedd yn gwarchod) (gweler canllawiau Llywodraeth Cymru). • Dylai dysgwyr yn y Coleg sy'n profi unrhyw newidiadau i'w hiechyd personol yn sgil symptomau Covid roi gwybod i'r Staff Academaidd a threfnu i adael yr adeilad. • Mae cofrestrî'n gofnod o'r holl Ddysgwyr ar y safle. • Dylai dysgwyr gymryd prawf llif unffordd deirgwaith yr wythnos ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener. Dylai dysgwyr rhan-amser neu rai sy'n mynychu'r campysau'n achlysurol wneud prawf cyn dod i safle neu gyfarfod yn y gweithle.	
Mynediad i'r safle (Ymwelwyr a Chleientiaid)	Pawb sydd ar y safle	• Dim ond ymwelwyr hanfodol all fynychu'r coleg ar y lefelau risg uchaf, a rhaid iddynt gadw at weithdrefnau'r coleg. • Dylai'r holl ymwelwyr a'r cleientiaid gael eu cofnodi ar y safle gan yr adran berthnasol • Rhaid i bob ymwelydd, gan gynnwys rhieni, wisgo gorchudd wyneb tra byddant mewn adeilad ar unrhyw safle • Rheolwyr i sicrhau bod cofrestr o fanylion cyswllt yn cael ei chadw, yn cynnwys rhif ffôn.	
Cyfleusterau ar y safle: Derbynfeydd	Pawb sy'n gweithio yn y dderbynfa neu'n gofyn am gyngor yn y Dderbynfa	• Dylid darparu sgriniau. • Dylid darparu hylif diheintio dwylo. • Dylid golchi dwylo/diheintio dwylo ar ôl ymdrin â phost neu becynnau sy'n dod i mewn a chyn ac ar ôl dosbarthu post a phecynnau sy'n cael eu hanfon allan. • Anogir Staff / Dysgwyr i gysylltu trwy e-bost/ffôn neu fannau ymgynnull. • Rhaid gwisgo gorchuddion wyneb a / neu feisorau os nad oes sgrin ac na ellir cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr.	
Cyfleusterau ar y safle: Ardaloedd Cymunedol	Pawb	• Ni fydd mannau ar gyfer eistedd mewn cantinau bwyd ar gael a bydd mannau cymunedol ar gyfer dysgwyr ar gau hefyd. • Bydd y ffreuturau'n cynnig gwasanaeth 'Tamaid Sydyn' yn unig.	
Cyfleusterau ar y	Pawb sy'n defnyddio	Yn amodol ar asesiad risg ar wahân, mae'n cynnwys:	

safle: Llyfrgelloedd	cyfleusterau'r llyfrgell	• Defnydd a nifer cyfyngedig o bobl • Ffordd ddiwygiedig i mewn / allan • Gweithdrefnau diwygiedig ar gyfer llyfrau a chofrestru llyfrau sy'n dod i mewn /mynd allan • Gorsafoedd hylendid • Trefn lanhau fwy trylwyr	
Cyfleusterau ar y safle: Ystafelloedd dosbarth ar gyfer addysgu	Pawb sy'n defnyddio ystafelloedd dosbarth	Yn amodol ar asesiad risg ar wahân, mae'n cynnwys: • Lle y bo'n bosibl, gellir defnyddio cynlluniau eistedd i leihau'r angen i ynysu'r grŵp cyfan ac i gefnogi'r gwaith olrhain. • Rhaid defnyddio cynlluniau eistedd ar lefel risg uchel iawn. • Mesurau rheoli hylendid – golchi dwylo a / neu ddiheintio'n aml • Amserlen lanhau well	
Cyfleusterau ar y safle: Asesiadau / Arholiadau		• Bydd arholiadau lle mae'r ymgeiswyr ar eu heistedd yn cael eu cynnal mewn ardaloedd dynodedig gyda gofod addas ac awyru da • Dylid arsyllu arholiadau ymarferol gan adael 2m o bellter cymdeithasol lle y bo'n bosibl neu gyda mesurau lliniaru cymeradwy. • Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, rhaid i ddysgwyr a staff wisgo gorchuddion wyneb os yw hynny'n ofynnol neu'n cael ei ffafrio. • Dylid darparu hylif diheintio dwylo. • Dylid golchi dwylo/diheintio dwylo cyn dosbarthu papurau arholiad ac ar ôl casglu papur arholiadau. • Trefn lanhau i'w dilyn cyn/ar ôl pob arholiad/asesiad.	
Cyfleusterau ar y safle: Cyfarfodydd	Pawb mewn cyfarfodydd	• Gellir cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar y campws ond dylid parhau i gynnal cyfarfodydd dros y we o bell (Google Meet / Zoom/ Microsoft ac ati) lle bo hynny'n briodol (yn unol â'r agenda cynaliadwyedd). • Llogi cyfleusterau'r campws ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â'r coleg – ni cheir gwneud hyn yn ystod, os na chafwyd cymeradwyaeth y Pennaeth/Prif Weithredwr â chyfrifoldeb am y safle/campws. Bydd y penderfyniad yn rhoi ystyriaeth i'r effaith ar y gwasanaethau cefnogi, h.y. Ystadau, Glanhau ac ati). Rhaid cynnal asesiadau risg priodol ar y gweithgareddau hyn.	

Cyfleusterau ar y safle: Toiledau	Pawb ar y safle	- Darparu toiledau – bydd y rhain ar gael fel arfer. - Bydd y cyfleusterau yn cael eu cynnal a’u cadw a’u glanhau yn rheolaidd gyda digon o ddeunyddiau glanhau dwylo ar gyfer golchi a rholiau toiled ar gyfer y toiledau. - Nid oedd sychwyr dwylo aer poeth yn cael eu defnyddio, ond yn awr gellir eu defnyddio yn unol â chanllawiau’r AGID. - Mae hylif diheintio dwylo ar gael mewn lleoliadau strategol (y tu allan i flociau’r toiled ac ym mynedfa/allanfa’r adeiladau). - Ceir trefn lanhau sy’n canolbwyntio ar arwynebau a gaiff eu cyffwrdd yn aml (ACA) (handlenni drysau, botymau’r lifftiau, canllawiau ayyb).	
Cyfleusterau ar y safle: Peiriannau argraffu / llungopiwr	Pawb sy’n dod i gysylltiad â pheiriannau argraffu / llungopiwr	- Mae peiriannau argraffu / llungopiwr yn cael eu nodi fel arwynebau a gaiff eu cyffwrdd yn aml (ACA). Anogir staff i ddefnyddio gorsafoedd glanhau cyn ac ar ôl defnyddio’r llungopiwr / peiriant argraffu. - Mae posteri ar gael i atgoffa defnyddwyr i ddilyn y drefn hylendid dwylo.	
Cyfleusterau ar y safle: Arlwyo	Pawb ar y safle	- Mae cyfleusterau arlwyo cyfyngedig ar gael. Yn y lle cyntaf, bydd hwn ar sail ‘Dewis a Mynd’. Bydd peiriannau cerdyn ar gael ar bob safle, ond gellir cymryd rhywfaint o arian. - Bydd y ffreuturau'n cynnig gwasanaeth 'Tamaid Sydyn' yn unig. - Efallai y bydd peiriannau gwerthu ar gael yn dibynnu ar leoliad y Coleg ac maen nhw wedi cael eu nodi fel arwynebau a gaiff eu cyffwrdd yn aml (ACA). - Mae posteri ar gael i atgoffa defnyddwyr i ddilyn y drefn hylendid dwylo. - Nid yw’r defnydd o geginau staff, oergelloedd a microdonau sy’n cael eu rhannu ayyb wedi’i gyfyngu, cyhyd â bod staff unigol yn cynnal trefn hylendid dda o’r ceginau a’r cyfarpar cyn eu defnyddio ac ar ôl eu defnyddio. - Mae posteri ar gael i atgoffa defnyddwyr i ddilyn y drefn hylendid dwylo. - Gall Staff / Dysgwyr ddod â’u bwyd eu hunain i’r safle – a chaniateir bwyta mewn ystafelloedd dosbarth yn ystod yr amseroedd egwyl (yn unig). - Mae Ffowntenni Dŵr ar gael ar gyfer Staff a Dysgwyr er mwyn iddyn nhw lenwi poteli dŵr, ond nid ar gyfer yfed.	
Cyfleusterau ar y safle: Canolfannau	Defnyddwyr a Glanhawyr canolfannau chwaraeon	Llogi campfeydd a chanolfannau hamdden – yn cael agor ond rhaid cadw at ganllawiau’r diwydiant. Chwaraeon cystadleuol - gellir cynnal y rhain yn unol â chanllawiau Colegau Cymru	

Chwaraeon		Bydd y canolfannau chwaraeon yn agor i ddysgwyr yn unig i ddechrau arni, neu unigolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu cyrsiau chwaraeon a gweithgareddau cysylltiedig.	
Cyfleusterau ar y safle: Lletygarwch a Salonau	Defnyddwyr a glanhawyr salonau a lletygarwch	Lletygarwch a salonau – gallant agor i ddibenion asesu'n unig a rhaid gweithredu'n unol â chanllawiau'r diwydiant.	
Cyfleusterau ar y safle: Gwaredu Gwastraff	Staff a chontractwyr glanhau	- Dylai staff waredu'r gwastraff yn y biniau a ddarperir. - Ni ddylai fod unrhyw finiau mewn swyddfeydd. Os oes gan staff eu biniau eu hunain, dylen nhw eu gwagio nhw yn rheolaidd i mewn i'r biniau canolog. - Dylid gwaredu unrhyw ddefnyddiau sy'n gysylltiedig â Covid yn yr ardaloedd dynodedig - lle gallan nhw gael eu diogelu am 72 awr a'u gwaredu fel gwastraff cyffredinol. Dylai <i>Kingdom</i> ddarparu cyngor ynglŷn â lleoliadau gwaredu gwastraff.	
Cyfleusterau ar y safle: Glanhau	Pawb ar y safle	- Mae'r Adran Ystadau wedi cytuno ar y lefelau gwasanaeth sydd eu hangen gan gontractwyr glanhau er mwyn glanhau arwynebau a mannau hylendid drwy'r dydd. - Dylai'r Adran Ystadau sicrhau bod cyfleusterau ar y safle yn cael eu cynnal a'u cadw, gyda'r cyfarpar priodol yn cael eu glanhau yn rheolaidd yn ôl y dyletswyddau glanhau mwy trylwyr a gytunwyd. Mae mwy o lanhawyr wedi cael eu cyflogi yn ystod y dydd. - Yr Adran Ystadau i sicrhau bod glanhawyr yn derbyn cyfarwyddyd ynglŷn â gweithdrefnau ar gyfer glanhau pe byddai achos posibl o Covid yn cael ei nodi.	
Teithio	Pawb sy'n ymweld â'r safle	- Mae Staff a Dysgwyr yn gyfrifol am gyrraedd y safle eu hunain, gan ddilyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth. - Bydd cludiant ar fysiau yn cael ei ddarparu fel arfer. - Bydd tacsis yn cael eu darparu fel arfer. - Mae'n rhaid i staff a dysgwyr sy'n teithio ar gludiant y coleg neu gludiant cyhoeddus wisgo gorchuddion wyneb os nad ydyn nhw wedi cael eu heithrio.	
Cerbydau GLIM		- Bydd cerbydau GLLM ar gael drwy'r system archebu Ystadau i'w defnyddio oddi ar y campws. - Bydd cerbydau dynodedig ar gyfer yr Adran Ystadau/TGCh ayyb. ar gael, gyda phrotocolau priodol ar gyfer eu defnyddio.	

Hylendid Personol	Pawb sydd ar y safle	Yr holl staff / dysgwyr i ddilyn cyngor diweddaraf y llywodraeth ynglŷn â mesurau ataliol.	
Cyfarpar Diogelu Personol (CDP) Cyfarpar Diogelu Anadlol (CDA)	Pawb sydd angen gwisgo CDP	- Nid oes angen unrhyw CDP / CDA ychwanegol i fynychu'r safle oni bai ei fod wedi cael ei nodi drwy asesiad risg penodol. Nid yw gorchuddion wyneb sy'n cael eu gwisgo ar gyfer COVID-19 yn cael eu hystyried yn CDP nac yn CDA. - Mae CDP i'w ddarparu a'i wisgo yn ôl asesiadau risg presennol, e.e. ar gyfer tasgau penodol mewn gweithdai. - Bydd y Coleg yn darparu'r holl CDP a nodwyd o fewn yr asesiadau risg penodol.	
Asesiadau Risg ar gyfer gweithgareddau	Staff a Dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd Contractwyr glanhau	- Bydd yr holl asesiadau risg presennol yn cael eu hadolygu er mwyn cynnwys rheolaethau ar gyfer coronafeirws. - Os yw'r gweithgaredd angen i staff fod yn nes na 2m, bydd y gweithgaredd yn derbyn asesiad risg er mwyn nodi'r camau gweithredu lliniarol sydd eu hangen. - Mae DIA yn darparu cefnogaeth a chanllawiau ar gyfer cwblhau asesiadau risg. Rheolwr / PCau i sicrhau bod asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau sy'n nodi unrhyw reolaethau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer eu meysydd nhw.	
Teithiau ac ymweliadau	Staff a Dysgwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd	Tripiau ac ymweliadau – Ar y lefel risg uchaf, dim ond tripiau ac ymweliadau sy'n hanfodol ar gyfer asesiadau (o fewn dalgylch Grŵp Llandrillo Menai) all cael eu cynnal a hynny'n unol â'r broses gymeradwyo arferol.	
Lleoliad Gwaith	Lleoliadau gwaith, aseswyr	Lleoliadau gwaith – Dim ond os ydynt yn ofynnol ar gyfer asesiadau neu'n rhan o raglen Estynedig / Datrysiaidau Creadigol ac yn unol ag asesiadau risg y darparwr gyda phroffion rheolaidd.	
Arwyddion	Pawb sydd ar y safle	- Dylech osod arwyddion Covid-19 mewn lleoliadau allweddol er mwyn atgoffa staff ynglŷn â'r holl reolaethau angenrheidiol, yn unol â Chanllawiau sy'n cynnwys: - Sut i olchi dwylo - Ei Ddal, Ei Daflu, Ei Ddifa - Hyrwyddo pellter cymdeithasol – 2m - Arwynebau a gyffyrddir yn aml – golchi dwylo ac anghenion diheintio	Penaethiaid Cynorthwyol / Cyfarwyddwyr i ofyn i'r Adran Ystadau am arwyddion penodol os oes angen
Llesiant	Staff a Dysgwyr	Mae cyngor iechyd a llesiant ar yr Hwb Iechyd sydd ar gael i'r holl staff ar borthol y Grŵp.	

		Ceir cymorth ar gyfer dysgwyr drwy ddarpariaethau Lles y Dysgwyr a gellir cael mynediad atyn nhw drwy borthol y Dysgwyr.	
Salwch	Staff a Dysgwyr	- Dilynwch y gweithdrefnau absenoldeb salwch. Staff / Dysgwyr i aros gartref os ydynt yn profi unrhyw un o symptomau Covid. - Adroddwch am unrhyw unigolion a all fod yn dangos arwyddion o salwch i'r rheolwyr. - Rhaid i staff a myfyrwyr gydweithio â'r timau Profi, Orlhain a Diogelu i helpu i reoli'r firws. - Rhaid i staff a myfyrwyr sy'n gorfod hunanynysu wneud hynny,	
Gweithdrefnau Brys i Wacáu'r Adeilad	Pawb sydd ar y safle.	Dylid dilyn y gweithdrefnau brys ar gyfer gwacáu'r adeilad, gan adael drwy'r allanfa agosaf a mynd i'r pwynt ymgynnull dynodedig – ac aros allan nes y bydd rhywun yn dweud ei bod yn ddiogel mynd yn ôl i mewn i'r adeilad.	
Gweithdrefnau Brys Cymorth Cyntaf	Pawb sydd ar y safle	- Bydd darpariaethau cymorth cyntaf ar gael drwy swyddog cymorth cyntaf neu unigolyn a benodwyd. - Mae cyngor ynglŷn â darparu cymorth cyntaf yn ystod Covid wedi cael ei anfon at bob swyddog cymorth cyntaf ac mae ar gael ar y porthol. - Mae pecynnau cymorth cyntaf Covid ar gael ar bob safle. (Eitemau ychwanegol ar gyfer ymdrin â chleifion ag achos posibl o'r Covid). - Pe digwydd argyfwng, dylai unigolion ffonio'r gwasanaethau brys (os yw'n briodol) a hysbysu'r rheolwr sydd ar ddyletswydd/safle, eu rheolwr a'u gofalwr. - Mae canllawiau ar gael ar y porthol.	
Gweithdrefnau Brys Covid		Dilynwch strategaeth Profi Orlhain Diogelu.	

Nodwch: Mae hwn yn asesiad risg dynamig a bydd yn amodol i newid

CYFEIRIADAU

Canllawiau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

- <https://www.hse.gov.uk/coronavirus/working-safely/risk-assessment.htm>

Canllawiau gweithredu diogel ar gyfer dysgu ôl-16 o fis Medi 2021 ymlaen

- https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-yn-addysg-ol-16?_ga=2.54878059.1356865955.1630488699-497457736.1601979533

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar deithio a chanllawiau ar orchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus

- <https://www.gov.uk/guidance/coronavirus-covid-19-safer-travel-guidance-for-passengers>

Strategaeth Profi Olrhain Diogelu Llywodraeth Cymru a'r GIG

- <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu>

Canllawiau COVID-19: glanhau lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd y tu allan i'r cartref

- <https://www.gov.uk/government/publications/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings/covid-19-decontamination-in-non-healthcare-settings>

SWYDDOGAETHAU / CAMAU GWEITHREDU O'R ASESIAD RISG

PENAETHIAID/CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

- **Penaethiaid/ Penaethiaid Cynorthwyol/ Cyfarwyddwyr** i ddarparu cyfarwyddyd ar gyfer staff cyn iddyn nhw ddechrau gweithio/mynychu campws coleg a rhoi gwybodaeth iddyn nhw ynglŷn â beth i'w ddisgwyl wrth fynychu safleoedd.
- **Penaethiaid** i ddarparu dysgwyr gyda chyfarwyddyd cyn iddyn nhw ddechrau gweithio/mynychu campws coleg. Darparu dysgwyr gyda gwybodaeth ynglŷn â beth i'w ddisgwyl a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth fynychu safleoedd. Y cyfarwyddyd i gynnwys nodyn i'w hatgoffa na ddylen nhw fynychu'r coleg os ydyn nhw'n teimlo'n sâl.
- **Penaethiaid** i gytuno ar Ofynion Rheolwr sydd ar Ddyletswydd/Safle ar gyfer safleoedd fel y bo'n briodol a darparu rhifau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer pob safle.

PENAETHIAID CYNORTHWYOL/CYFARWYDDWYR

- **Penaethiaid Cynorthwyol/Cyfarwyddwyr / Rheolwyr** i gytuno â'r adran Ystadau sut y bydd y swyddfeydd / yr ystafelloedd dosbarth / y gweithdai yn cael eu defnyddio a'u gosod ar gyfer pwy bynnag sy'n eu mynychu a'u defnyddio. Dylid defnyddio cynlluniau eistedd lle bo hynny'n bosibl i leihau'r angen i ynysu'r grŵp cyfan ac i gefnogi'r gwaith olrhain.
- **Penaethiaid/ Penaethiaid Cynorthwyol/ Cyfarwyddwyr** i ddarparu cyfarwyddyd cyn dechrau gweithio / mynychu campws coleg a derbyn gwybodaeth ynglŷn â beth i'w ddisgwyl a'r weithdrefn i'w dilyn wrth fynychu safleoedd.
- **Rheolwyr/ Penaethiaid Cynorthwyol** i sicrhau bod asesiadau risg gweithgareddau sy'n nodi bod angen rheolaethau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer eu meysydd

- **Penaethiaid Cynorthwyol/Cyfarwyddwyr** i ofyn am arwyddion penodol gan yr Adran Ystadau os oes angen.

RHEOLWR SYDD AR DDYLETSWYDD/SAFLE

- **Rheolwr sydd ar Ddyletswydd/Safle** i'w benodi (lle bo'r angen) a chasglu radio ddwyffordd i gysylltu â Diogelwch/yr Adran Ystadau/Gofalwyr.

YR YSTADAU

- **Ystadau** i sicrhau bod personél ar gael i agor a diogelu'r safleoedd. Gofalwyr i fod ar gael i ymateb i geisiadau e.e. methiant yn y cyflenwad trydan / draeniau wedi'u blocio, colli cyfleusterau.
- **Ystadau** i sicrhau bod cyfleusterau ar y safle yn cael eu cynnal a'u cadw, gydag offer priodol ac yn cael eu glanhau fel arfer yn ôl y dyletswyddau glanhau manylach a gytunwyd. Mae mwy o lanhawyr wedi cael eu cyflogi ar gyfer y dydd.
- **Ystadau** i sicrhau bod glanhawyr yn derbyn cyfarwyddyd ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer glanhau trylwyr iawn, pe bai achos posibl o Covid yn cael ei nodi.

DIA

- **DIA** i ddarparu cefnogaeth a chanllawiau ar gyfer cwblhau asesiadau risg DIA.

RhMRhau / Rheolwyr

- Rheolwyr i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu gwneud ar unrhyw safle a ddefnyddir i sicrhau bod mesurau rheoli Covid sydd ar waith yn cael eu cyfleu i staff i'w dilyn, ee, ar gyfer cyrsiau yn y gymuned.
- **Penaethiaid Cynorthwyol/Cyfarwyddwyr / Rheolwyr** i gytuno gydag Ystadau ynghylch sut y bydd y swyddfeydd / ystafelloedd dosbarth / gweithdai y byddant yn eu defnyddio yn cael eu gosod a sut byddant yn cael eu defnyddio. Dylid defnyddio cynlluniau eistedd lle bo hynny'n bosibl i leihau'r angen i ynysu'r grŵp cyfan ac i gefnogi'r gwaith olrhain.
- **Rheolwyr** i sicrhau bod cofrestr o fanylion cyswllt yr ymwelwyr yn cael ei chadw, yn cynnwys rhifau ffôn.
- **Rheolwyr/ Penaethiaid Cynorthwyol** i sicrhau bod asesiadau risg gweithgareddau sy'n nodi unrhyw reolaethau ychwanegol yn cael eu cynnal ar gyfer eu meysydd.

STAFF

- **Dylai Staff** aros gartref ac adrodd i Reolwyr os ydyn nhw'n teimlo'n sâl.
- **Dylai Staff** mewn categorïau risg uchel drafod unrhyw bryderon gyda rheolwyr cyn dychwelyd i'r gwaith.
- **Dylai Staff** yn y categorïau gwarchod blaenorol gael asesiad risg wedi'i wneud.
- **Dylai Staff Unigol** gadw at drefn hylendid dda yn y ceginau a'r cyfarpar cyn eu defnyddio nhw ac ar ôl eu defnyddio nhw.
- **Rhaid i Staff** gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd a myfyrwyr oni bai eu bod yn defnyddio PPE priodol.
- **Mae Staff a Dysgwyr** yn gyfrifol am deithio i'r safle eu hunain drwy ddilyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth.
- Dylai'r **Holl Staff / Dysgwyr** ddilyn cyngor diweddaraf y llywodraeth ynglŷn â mesurau ataliol.
- Gall yr **Holl Staff / Dysgwyr** wisgo gorchuddion wyneb os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

DYSGWYR

- **Bydd disgwyl i Ddysgwyr** fynychu'r Coleg. Gall categorïau risg uwch drafod eu categori iechyd eu hunain a'u pryderon gyda thiwtoriaid cyn dod i mewn i'r Coleg.
- Gall **dysgwyr** mewn categorïau risg uwch drafod eu categorïau iechyd a'u pryderon gyda thiwtoriaid cyn dod i'r Coleg.
- Dylai dysgwyr yn y categorïau gwarchod blaenorol gael asesiad risg wedi'i wneud.
- **Dylai Dysgwyr** yn y Coleg sy'n gweld unrhyw newidiadau i'w hiechyd personol hysbysu'r Staff Academaidd a threfnu i adael yr adeilad.
- **Mae disgwyl i Staff / Dysgwyr** aros yn eu hardaloedd dynodedig eu hunain ar gyfer amseroedd egwyl a pheidio â chymysgu gyda staff/dysgwyr mewn ardaloedd eraill.
- **Mae Staff a Dysgwyr** yn gyfrifol am deithio i'r safle eu hunain drwy ddilyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth.
- **Dylai'r Holl staff / Dysgwyr** ddilyn cyngor diweddaraf y llywodraeth ynglŷn â mesurau ataliol
- Gall yr holl staff / dysgwyr wisgo gorchuddion wyneb os ydynt yn dymuno gwneud hynny.